



# Cyngor Bro Morgannwg Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) - Blwyddyn 1

## Prosiect Gosod Systemau Gwres Hybrid

**Cyflwynir gan:**

Rheolwr Datblygu a Buddsoddi Cyngor Bro Morgannwg – Mr. Richard Stopgate



# Amlinelliad o'r Prosiect a Dyheadau

- Gweithio mewn partneriaeth â PassivUK Ltd i osod 57 o osodiadau gwresogi hybrid yn stoc Tai Cyngor Bro Morgannwg.

- Gosod 100 o Synwyryddion Airwit a chynnal 100 o asesiadau pasbort adeiladau.

- Uwchsgilio contractwr/contractwyr gosod lleol (gan ddefnyddio cyllid ORP) i osod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer (AHPs) ac offer IES PassivUK Ltd, a chael gwarant estynedig (7 mlynedd).

- PassivUK Ltd yn datblygu pecyn meddalwedd pasbort adeiladu i ddal data ynni ein stoc dai.



# Y Broses Osod

- Cael gafael ar gontractwr/contractwyr lleol ym Mro Morgannwg.
- Trefnu cyfleoedd i uwchsgilio a datblygu ar y cyd â Choleg Penybont a PassivUK Ltd.
- Roedd Swyddogion Cyswllt Tenantiaid wedi ymgysylltu â thenantiaid perthnasol i gymryd rhan yn y prosiect.
- PassivUK Ltd yn arolygu'r eiddo.
- Byddai'r gwaith gosod yn cymryd 6 diwrnod, 1 diwrnod ar gyfer gwaith paratoi. 3 diwrnod ar gyfer y gwaith plymio a 2 ddiwrnod ar gyfer cydrannau trydanol.
- Roedd y comisiynu yn cymryd tua phythefnos ar ôl y dyddiad gosod diwethaf.

# Adborth am Brofiad Tenantiaid

- Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol gan denantiaid
    - Y broses osod - 9.87
    - Ansawdd y gwaith a’r gwelliant terfynol - 9.64








# Heriau a Gwersi a Ddysgwyd

## Cyn Gosod

- PAS2035 – ychydig iawn o wybodaeth fewnol am PAS2035 oedd i ddechrau: *bydd prosiectau ôl-osod yn y dyfodol yn dilyn y safon o'r dechrau i'r diwedd.*

- Ymgysylltiad a chyfranogiad tenantiaid – amheuaeth a phryder ynghylch arbedion posibl: *Roedd cyfathrebu da a deunyddiau gwybodaeth gwell ar gyfer y contractwr a'r TLO wedi helpu i annog tenantiaid i gymryd rhan.*

- Hyfforddi a gwella sgiliau contractwyr a staff mewnol – Er ein bod wedi ffurfio partneriaeth â Choleg Penybont, bu oedi cyn cyflwyno rig hyfforddi Samsung: *sicrhau adnoddau amser a chynllunio gwell*.

# Heriau a Gwersi a Ddysgwyd

Gosod

- Effaith Pandemig Covid-19 – tenantiaid yn gwrthod y gwaith. Cwblhawyd 44/57 o osodiadau hybrid.

- Tenantiaid heb ddarpariaeth rhwydwaith cryf, ffonau clyfar / cyfeiriadau e-bost – *gosod teclynnau cryfhau signal WiFi, edrych ar ddarparu Hyb o bell, defnyddio cyfeiriadau e-bost aelodau o’r teulu.*

- Cynllunio Ôl-weithredol – 3m yng Nghymru, nid 1m.

- Lefelau tanwydd a thlodi tanwydd – fforddiadwyedd i rai tenantiaid yn y Fro wledig: *Trydydd parti yn cynnig cyngor ariannol a darparu talebau i helpu gyda chostau tanwydd.*

# Heriau a Gwersi a Ddysgwyd

## Ar ôl Gosod

- Gweinyddu a staffio – tanamcangyfrif y gefnogaeth sydd ei hangen ar denantiaid ar ôl comisiynu'r system: *Canllawiau gwell i ddatrys problemau i gwsmeriaid a hyfforddi staff mewn canolfannau galwadau.*

- Monitro'r System – *Mae tîm cymorth technegol PassivUK Ltd wedi gweithio gyda thenantiaid i addasu'r gosodiad ar y system ac i'w haddysgu ymhellach ynghylch sut mae defnyddio'r system*.

- Costau tanwydd – Cynnydd cenedlaethol mewn costau tanwydd. Tenantiaid yn rheoli'r system: *Rhoi rhagor o addysg i denantiaid.*

# Unrhyw Gwestiynau?

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG